

PRIFFYRDD, CYMRU

201- Rhif

DEDDF PRIFFYRDD 1980

**GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4
(CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O
FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O
GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD
CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48
(FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A
CHEFNFFORDD LLUNDAIN I
ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O
FAGWYR I GAS-BACH) (FFYRDD
YMYL) (ATODOL) 201-**

Gwnaed 201-

Yn dod i rym 201-

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 18 a 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980⁽¹⁾ a phob pŵer galluogi arall⁽²⁾ yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Y Gwaith Awdurdodedig

1. Awdurdodir Gweinidogion Cymru, o ran y draffordd newydd:

- a. i gau mynedfeydd preifat i fangreodd;
- b. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreodd.

2. (1) Mae'r gwaith a awdurdodir gan erthygl 1 wedi ei ddangos yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac wedi ei ddangos ar y plan safle a gynhwysir yn y plan a adnewwyd ac sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn hwn fel a ganlyn:-

- a. disgrifir y darn o fynedfa breifat sydd i'w gau yn yr Atodlen (a brasamcan yn unig yw'r pellter a nodir), a rhoddir iddo'r rhif cyfeirnod a ddangosir ar y plan a adnewwyd a'i ddangos â band du solet; a

HIGHWAYS, WALES

201- No

THE HIGHWAYS ACT 1980

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23
(EAST OF MAGOR) TO WEST OF
JUNCTION 29 (CASTLETON) AND
CONNECTING ROADS) AND THE
M48 MOTORWAY (JUNCTION 23
(EAST OF MAGOR) CONNECTING
ROAD) AND THE LONDON TO
FISHGUARD TRUNK ROAD (EAST
OF MAGOR TO CASTLETON)
(SUPPLEMENTARY) (SIDE ROADS)
ORDER 201-**

Made 201-

Coming into force 201-

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 18 and 125 of the Highways Act 1980⁽¹⁾ and of all other enabling powers⁽²⁾ make this Order.

The Authorised Works

1. The Welsh Ministers are authorised, in relation to the new motorway:

- a. to stop up private means of access to premises;
- b. to provide new means of access to premises.

2. (1) The works authorised by article 1 are indicated in the Schedule to this Order and are shown on the site plan that is included in the deposited plan that accompanies this Order in the following manner:-

- a. the length of private means of access to be stopped up is described in the Schedule (the distance stated being approximate only), and is given the reference number shown on

- b. dangosir mynedfeydd newydd sydd i'w darparu drwy ddefnyddio rhifau a llythrennau cyfeirnod yn yr Atodlen a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adnewwyd. Pan fo mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, gosodir rhif a llythyren ei chyfeirnod gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd newydd sydd i'w darparu â llinellau lletraws ar y plan a adnewwyd.

(2) Mae'r plan a adnewwyd yn marcio safle'r draffordd newydd mewn perthynas â'r gwaith awdurdodedig a ddangosir ar y plan a adnewwyd.

Cau Mynedfeydd Preifat

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni o ran y fynedfa breifat i fangre y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei chau, y caiff mynedfa resymol gyfleus arall i'r fangre ei darparu yn unol â'r Gorchymyn hwn cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau.

Dehongli

4. Yn y Gorchymyn hwn:-

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r fynedfa berthnasol i fangre, yn ôl y digwydd;

(2) (i) ystyr "y plan a adnewwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n cynnwys plan safle a gynhwysir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WG16 ac a farciwyd "Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i'r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-Bach) a Ffyrd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i'r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i'r Dwyrain o

the deposited plan and is shown by a solid black band; and

- b. new means of access to be provided are indicated by the use of reference numbers and letters in the Schedule which are given to those new means of access on the deposited plan. Where a new means of access is to be provided in connection with the stopping up of a length of private means of access described in that Schedule, its reference number and letter is placed opposite to the description of that length. Routes of new means of access to be provided are shown by diagonal hatching on the deposited plan

(2) The deposited plan marks the position of the new motorway in relation to the authorised works shown on the deposited plan.

Stopping Up of Private Means of Access

3. It is hereby declared that the Welsh Ministers are satisfied as respects the private means of access to premises the stopping up of which is authorised by this Order, that another reasonably convenient means of access to premises will be provided in pursuance of this Order before that private means of access is stopped up.

Interpretation

4. In this Order:-

(1) all measurements of distance are measured along the route of the relevant highway or means of access to premises as the case may be;

(2) (i) "the deposited plan" ("*y plan a adnewydd*") means the plan containing a site plan contained in the plan folio numbered HA14/1 WG16 and marked 'The M4

Fagwyr i Gas-Bach) (Ffyrdd Ymyl) (Atodol 201-” a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac a adnewwyd (cyf. qA1174612) yn Llywodraeth Cymru, yr Uned Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion, Parc Cathays, Caerdydd;

(ii) ystyr “y draffordd newydd” (“*the new motorway*”) yw’r darnau o ffordd arbennig a fwriedir i’w hadeiladu gan Weinidogion Cymru yn unol â chynllun ffyrdd arbennig rhwng traffordd bresennol yr M4 ym Magwyr a thraffordd bresennol yr M4 yng Nghas-bach, gan gynnwys ffyrdd cysylltu, ac a ddangosir ar y plan a adnewwyd;

(iii) ystyr “y plan safle” (“*the site plan*”) yw’r plan safle a gynhwysir yn y ffolio planiau sy’n dwyn y rhif HA14/1 WG16 ac y cyfeirir ato fel “y plan a adnewwyd” yn is-baragraff (i) uchod yn yr erthygl hon.

Enwi a Chychwyn

5. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar ***** 201- a’i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr) i Fan i’r Gorllewin o Gyffordd 29 (Cas-Bach) a Ffyrdd Cysylltu) a Thraffordd yr M48 (Ffordd Gysylltu Cyffordd 23 (Man i’r Dwyrain o Fagwyr)) a Chefnffordd Llundain i Abergwaun (Man i’r Dwyrain o Fagwyr i Gas-Bach) (Ffyrdd Ymyl) (Atodol) 201-.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig: 201-

NINA LEY

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r
Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1980 p.66
- (2) Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pperau hyn bellach yn arferadwy gan

Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and the M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) and the London to Fishguard Trunk Road (East of Magor to Castleton) (Supplementary) (Side Roads) Order 201-’ signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref. qA1174612) at the Welsh Government, Information and Records Management Unit, Cathays Park, Cardiff;

(ii) “the new motorway” (“*y draffordd newydd*”) means the lengths of special road proposed to be constructed by the Welsh Ministers pursuant to a special road scheme between the existing M4 motorway at Magor and the existing M4 motorway at Castleton, including connecting roads, and shown on the deposited plan;

(iii) “the site plan” (“*y plan safle*”) means the site plan contained in the plan folio numbered HA14/1 WG16 and referred to as “the deposited plan” at sub-paragraph (i) above of this article.

Title and Commencement

5. This Order comes into force on ***** 201- and its title is The M4 Motorway (Junction 23 (East of Magor) to West of Junction 29 (Castleton) and Connecting Roads) and the M48 Motorway (Junction 23 (East of Magor) Connecting Road) and the London to Fishguard Trunk Road (East of Magor to Castleton) (Supplementary) (Side Roads) Order 201-.

Signed on behalf of the Welsh Ministers

Dated: 201-

NINA LEY

Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

- (1) 1980 c.66
- (2) By virtue of S.I.1999/672, article 2 and section 162 of, and Schedule 1 and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

DEDDF PRIFFYRDD 1980

GORCHYMYN TRAFFORDD YR M4 (CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48 (FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A CHEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR I GAS-BACH) (FFYRDD YMYL) (ATODOL) 201-

Mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 18 a 125 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a fydd yn eu hawdurdodi-

- a. i gau mynedfeydd preifat i fangreodd, ac
- b. i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreodd,

oll ar lwybr y draffordd newydd, neu yn ei chyffiniau a fwriedir i'w hadeiladu gan Weinidogion Cymru yn unol â chynllun ffyrdd arbennig rhwng traffordd bresennol yr M4 ym Magwyr a thraffordd bresennol yr M4 yng Nghas-bach.

Gellir archwilio copiâu o'r Gorchymyn Atodol drafft a'r plan perthynol yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol rhwng 20 Ebrill 2017 a 1 Mehefin 2017, yn y manau a ganlyn:

Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA

THE HIGHWAYS ACT 1980

THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23 (EAST OF MAGOR) TO WEST OF JUNCTION 29 (CASTLETON) AND CONNECTING ROADS) AND THE M48 MOTORWAY (JUNCTION 23 (EAST OF MAGOR) CONNECTING ROAD) AND THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK ROAD (EAST OF MAGOR TO CASTLETON) (SUPPLEMENTARY) (SIDE ROADS) ORDER 201-

The Welsh Ministers propose to make an Order under sections 18 and 125 of the Highways Act 1980 which will authorise them to-

- a. to stop up private means of Access to premises, and
- b. to provide new means of access to premises,

all on, or in the vicinity of, the route of the new motorway proposed to be constructed by the Welsh Ministers pursuant to a special road scheme between the existing M4 motorway at Magor and the existing M4 motorway at Castleton.

A copy of the draft Supplementary Order and accompanying plan may be inspected free of charge at all reasonable hours from 20 April 2017 until 1 June 2017, at the following venues:

Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Monmouthshire County Council, County Hall, Rhadyr, Usk, Monmouthshire. NP15 1GA

Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Cymrul, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG

Cyngor Dinas Casnewydd, Y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Rd, Casnewydd. NP20 4UR

Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square, Casnewydd. NP20 1PA

CAIFF UNRHYW BERSON wrthwynebu gwneud y Gorchymyn drwy hysbysu'r Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1174612 a chan ddatgan seiliau'r gwrthwynebiad a hynny erbyn 1 Mehefin 2017 fan bellaf. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu neu gefnogi, bydd y tîm prosiect yn ystyried eich gohebiaeth ac fe all y bydd angen inni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir inni drosglwyddo gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Er hynny, ni fyddwn yn datgelu'ch manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Gan fod y Cynllun Traffyrdd yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopio i Arolygwyr yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn Llyfrgell yr YC a bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Atodol drafft a'r Hysbysiad yn www.llyw.cymru (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Anstatudol Drafft', 'Gorchymynion Ffyrdd Ymyl y Ddeddf Priffyrdd a Gorchymynion Prynu Gorfodol').

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Monmouthshire County Council, Innovation House, Wales1 Business Park, Magor, Monmouthshire. NP26 3DG

Newport City Council, Civic Centre, Godfrey Rd, Newport. NP20 4UR

Newport Central Library, John Frost Square, Newport. NP20 1PA

ANY PERSON may not later than 1 June 2017 object to the making of the Order by notice to the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference qA1174612 and stating the grounds of objection. **Please note:** Should you wish to object or support, your correspondence will be considered by the project team and we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. As the Motorway Scheme is the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence will be copied to the Inspectors of the Inquiry and will be kept in the PI Library and be publicly available.

A copy of the draft Supplementary Side Roads Order and Notice can be viewed at www.gov.wales (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Non-Statutory Instruments', 'Highways Act Side Roads and Compulsory Purchase Orders').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

**HYSBYSIAD AM Y DATGANIAD
AMGYLCHEDDOL**

GWEINIDOGION CYMRU

**CYNLLUN TRAFFORDD YR M4
(CYFFORDD 23 (MAN I'R DWYRAIN O
FAGWYR) I FAN I'R GORLLEWIN O
GYFFORDD 29 (CAS-BACH) A FFYRDD
CYSYLLTU) A THRAFFORDD YR M48
(FFORDD GYSYLLTU CYFFORDD 23
(MAN I'R DWYRAIN O FAGWYR)) A
CHEFNFFORDD LLUNDAIN I
ABERGWAUN (MAN I'R DWYRAIN O
FAGWYR I GAS-BACH)**

**ASESIAD O'R EFFAITH
AMGYLCHEDDOL – ATODIAD RHIF 4
I'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL**

**HYSBYSIAD AM ATODIAD RHIF 4 I'R
DATGANIAD AMGYLCHEDDOL YN
UNOL AG ADRAN 105B O DDEDDF
PRIFYRDD 1980 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried rhoi prosiect ar waith i adeiladu adran newydd o draffordd yr M4 i'r de o Gasnewydd, gan gynnwys gwaith ar-lein ac all-lein a gwelliannau i'r ffyrdd ymyl. Mae'r prosiect hwn yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn unol â Rhan VA o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y'i diwygiwyd) a Chyfarwyddeb 2011/92/EU y GE. Gan hymny, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Ddatganiad Amgylcheddol (DA) ar 10 Mawrth 2016.

Yn dilyn cyhoeddi'r DA, cyhoeddwyd tri Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol (ADA) ar 5 Medi 2016, 13 Rhagfyr 2016 a 21 Mawrth 2017. Darparwyd errata, data a eglurhad ychwanegol, ac asesiad amgylcheddol o newidiadau i ddyluniad y cynllun rhwng Mawrth 2016 a Chwefror 2017. Dylwyd darllen yr holl atodiadau a'r DA gyda'u gilydd.

Yn dilyn dewis Gweinidogion Cymru i gynnwys mesuriadau amddiffyn pont o fewn Dociau Casnewydd, mae Atodiad ychwanegol i'r Datganiad Amgylcheddol (ADA4) wedi ei

**NOTICE OF THE ENVIRONMENTAL
STATEMENT**

THE WELSH MINISTERS

**THE M4 MOTORWAY (JUNCTION 23
(EAST OF MAGOR) TO WEST OF
JUNCTION 29 (CASTLETON) AND
CONNECTING ROADS) AND THE M48
MOTORWAY (JUNCTION 23 (EAST OF
MAGOR) CONNECTING ROAD) AND
THE LONDON TO FISHGUARD TRUNK
ROAD (EAST OF MAGOR TO
CASTLETON) SCHEME**

**ENVIRONMENTAL IMPACT
ASSESSMENT – ENVIRONMENTAL
STATEMENT SUPPLEMENT NO. 4**

**NOTICE OF ENVIRONMENTAL
STATEMENT SUPPLEMENT NO. 4 IN
ACCORDANCE WITH SECTION 105B OF
THE HIGHWAYS ACT 1980 (AS
AMENDED)**

The Welsh Ministers are considering implementing a project for the construction of a new section of M4 motorway to the south of Newport to include online and off line works and side road improvements. This project is subject to an Environmental Impact Assessment in accordance with Part VA of the Highways Act 1980 (as amended) and EC Directive 2011/92/EU. Therefore the Welsh Ministers published an Environmental Statement (ES) on 10 March 2016.

Following publication of the ES, three Environmental Statement Supplements (ESS) were published on 5 September 2016, 13th December 2016 and 21 March 2017. These provide errata, additional data and clarifications, and an environmental assessment of scheme design changes between March 2016 and February 2017. All supplements and the ES should be read together.

Following the Welsh Ministers' decision to incorporate bridge protection measures within Newport Docks a further Environmental

lunio sydd, yn rhoi disgrifiad, a asesiad amgylcheddol, o'r newid yma i'r cynllun:

Roedd yr ADA4 yma wedi cael ei gyhoeddi ar 20 Ebrill 2017 a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r DA, yr ADA, ADA2, ADA3 a'r Crynodeb Annhechnegol, sy'n parhau i fod yn ddilys.

Gellir edrych ar gopiâu o'r ADA4 am ddim ar bob adeg rhesymol yn ystod y cyfnod gwneud sylwadau yn y manau a ganlyn:

Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Radur, Brynbuga, Sir Fynwy. NP15 1GA
Cyngor Sir Fynwy, Tŷ Arloesi, Parc Busnes Wales1, Magwyr, Sir Fynwy. NP26 3DG

Cyngor Dinas Casnewydd, y Ganolfan Ddinesig, Heol Godfrey, Casnewydd. NP20 4UR

Llyfrgell Ganolog Casnewydd, John Frost Square, Casnewydd. NP20 1PA

Gellir prynu copiâu electronig o'r Datganiad Amgylcheddol (gan gynnwys ADA4 ar DVD) o gyfeiriad Llywodraeth Cymru uchod am £20 (gan gynnwys pecynnu a phostio). Gellir hefyd gael copiâu papur o'r cyfeiriad uchod, er y bydd cost weinyddol i dalu'r gost o gopïo (pris ar gais).

Mae copi electronig o'r ADA4 wedi ei gyhoeddi ar-lein yn www.llyw.cymru/trafnidiaeth.

Dylai unrhyw sylwadau am yr ADA4 gael eu gwneud mewn ysgrifên i Lywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ym Mharc Cathays a roddir uchod a dylent gyrraedd erbyn 1 Mehefin 2017 fan bellaf.

Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pob sylw ysgrifenedig cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r prosiect ai peidio a hynny

Statement Supplement (ESS4) has been prepared which provides a description, and an environmental assessment, of the design change.

This ESS4 was published on 20 April 2017 and should be read in conjunction with the published ES, ESS, ESS2, ESS3 and Non-Technical Summary, which remain valid.

Copies of the ESS4 may be inspected free of charge during all reasonable business hours during the comment period at the following premises:

Orders Branch, Transport, Welsh Government Offices, Cathays Park, Cardiff. CF10 3NQ

Monmouthshire County Council, County Hall, Rhadyr, Usk, Monmouthshire. NP15 1GA
Monmouthshire County Council, Innovation House, Wales1 Business Park, Magor, Monmouthshire. NP26 3DG

Newport City Council, Civic Centre, Godfrey Rd, Newport. NP20 4UR

Newport Central Library, John Frost Square, Newport. NP20 1PA

Electronic copies of the Environmental Statement (including ESS4 on DVD) can be purchased from the above Welsh Government address at a cost of £20 (including postage and packaging). Paper copies are also available from the above address, although an administrative charge will be made to cover the cost of copying (price on application).

An electronic copy of the ESS4 is published on-line at www.gov.wales/transport.

Any comments about the ESS4 should be made in writing to the Welsh Government at the Cathays Park address given above and should arrive no later than 1 June 2017.

The Welsh Ministers will take all written comments into consideration before deciding whether or not to proceed with the project with

gydag addasiadau neu hebddynt.

or without modifications.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
ar ran Gweinidogion Cymru

M D BURNELL
Transport
Welsh Government
On behalf of the Welsh Ministers